| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **DYDDIAD:** | 30 Hydref 2020 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL A SEFYDLIAD:** | Justin Hanson Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| **SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:** | Helen Millband Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **TESTUN:** | Y diweddaraf am gefnogi cadernid amgylcheddol ac adolygiad |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'n sôn am waith yr is-grŵp yn adolygu'r 5 maes gwaith yn y flaenoriaeth yma yn sgil pandemig Covid-19, yn rhoi'r newyddion diweddaraf y gofynnodd aelodau amdani yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fis Gorffennaf, ac amlinellu sut a pham bod dau brosiect wedi cael eu cyflwyno i broses grant Cyllid Strategol a Ddyrannwyd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I roi'r newyddion diweddaraf am gynnydd ac adolygiad o flaenoriaeth Cefnogi Cadernid Amgylcheddol gan is-grŵp Cefnogi Cadernid Amgylcheddol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'r adolygiad o feysydd gwaith presennol mewn cysylltiad â Covid-19 yn argymell -

a) oedi'r tri maes blaenoriaeth presennol;
b) bod blaenoriaeth newydd yn cael ei llunio sy'n cydnabod pwysigrwydd man gwyrdd a glas ar gyfer cymunedau, a;
c) bod 2 weithred ychwanegol yr is-grŵp am arferion gweithio staff partneriaid BGC, a sefydlu cysylltiadau gyda'r strategaeth cludiant ac ynni rhanbarthol yn berthnasol
d) bod y cyfrifoldeb a rennir a awgrymwyd i adrodd a monitro gweithredoedd yn cael cytundeb ar draws partneriaid y BGC

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn cadeirio'r is-grŵp yma. Rydym wedi cyfarfod ddwywaith eleni, ar 31 Ionawr a 16 Medi, cafodd cyfarfodydd eraill eu canslo yn sgil capasiti yn ystod y cyfnod clo.

4.2 Cafodd cyfarfod mis Medi ei alw yn benodol er mwyn:

a) Cyfarfod y prif BGC a gofyn iddynt adolygu blaenoriaethau yn sgil pandemig Covid-19.

b) Rhoi digon o le i’r is-grŵp fyfyrio ar yr hyn y mae’r BGC yn ei ofyn a thrafod ac adolygu’r blaenoriaethau yn sgil Covid a’r potensial ar gyfer adferiad gwyrdd.
c) Mae’r cyfnod clo, a’n ymateb gweithio i’r pandemig wedi ei gwneud hi’n amlwg na allwn wneud yr hyn yr oeddem yn ei wneud, nac ychwaith pobl a chymunedau Conwy a Sir Ddinbych. Felly rydym yn cydnabod mai dyma oedd yr amser i adolygu, adlewyrchu ac ail flaenoriaethu. Gyda dealltwriaeth y gallai fod yn angenrheidiol i ni ganolbwyntio ar lai o bethau.
d) Ystyried rhannu cyfrifoldeb ar gyfer gweinyddu, adrodd a monitro mewn perthynas â’r meysydd gwaith.
e) Edrych ar y potensial ar gyfer prosiectau bach, i ddechrau neu beilota neu ddatblygu dulliau presennol o weithio ar draws y BGC allai fanteisio ar gyllid o £25,000 gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.3 Fe atgoffodd CNC y grŵp am y cysylltiadau rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd a bod sesiynau ymgysylltu ar-lein yn cael eu cynnal ar gyfer gogledd-orllewin (Conwy) a gogledd-ddwyrain (Sir Ddinbych) Cymru yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd a fydd yn cyd-fynd â gwaith BGC trwy flaenoriaethu cyfleoedd sy’n gysylltiedig â’r amgylchedd – caiff ystod eang o bartneriaid eu hannog i fynychu.

4.4 Bu’r cyfarfod yn adolygu’r pum maes gwaith presennol yn y flaenoriaeth yma. Er bod y cyfan dal i fod yn berthnasol, cytunwyd bod angen oedi rhai ohonynt oherwydd capasiti, neu yn syml, mai dyma’r amser anghywir yn ystod pandemig.

4.5 Cytunwyd i ddatblygu un maes gwaith newydd am fannau gwyrdd a glas ar gyfer cymunedau, gan adeiladu ar y brwdfrydedd newydd am yr amgylchedd lleol yn ystod y cyfnod clo cyntaf, a’r potensial i helpu adferiad. Fe gydnabuwyd fod yna gysylltiadau pwysig i'w datblygu mewn cysylltiad â blaenoriaeth "Cefnogi lles meddyliol da i rai o bob oed” gan fod yna dystiolaeth gadarn am fanteision mannau gwyrdd.

4.6 Mewn trafodaeth ynghylch gweithio o adref a theithio, cafodd is weithred newydd pwysig ei adnabod o dan lleihau carbon – datblygu dulliau ar y cyd, arferion da a dulliau y gellir eu hailddefnyddio o gynnal busnes dros y we a gweithio o adref, lleihau teithio a chydraddoldeb cynyddol o fewn arferion gweithio. Cytunwyd y byddai’r is-grŵp yn annog dysgu a rhannu gwaith o dan faes gwaith 1.

4.7 O dan yr un maes gwaith 1, fe dynnwyd sylw at economi rhad-ar-garbon sy’n gysylltiedig â strategaeth cludiant ac ynni rhanbarthol. Roedd y grŵp yn cydnabod y gallai sgyrsiau ar lefel BGC hwyluso cydweithio gwell gyda gwaith/mentrau rhanbarthol a chenedlaethol. Fe argymhellir bod hyn yn cael ei gynnwys ym maes gwaith 1 (gweler 4.9 isod).

4.8 Cafodd crynodeb o feysydd gwaith diwygiedig o dan flaenoriaeth Cefnogi Cadernid Amgylcheddol a sefydliadu arweiniol eu cadarnhau:

| Maes gwaith | Manylion | Canlyniad yr arolwg | Arweinydd Newydd y Cytunwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithio gyda’n partneriaid BGC i ddatblygu fframwaith ar gyfer ein gwaith amgylcheddol, fel ein bod i | Dal YN BERTHNASOL ond – ehangu dangosydd mesur | Cyngor Sir Ddinbych |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyd yn gweithio tuag at yr un nod. | bioamrywiaeth 44;<br><br>- cynnwys manteision gweithio o adref;<br><br>- strategaeth ynni rhanbarthol; a<br><br>_ bwrdd iechyd ISO14401 a chysylltiadau BGC | |
| 2 | Gweithio gyda chymunedau i ddatblygu addewidion amgylcheddol a newidiadau gwyrdd y gallwn ei wneud i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. | Dal yn berthnasol ond WEDI'I OEDI | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy pan fydd y swyddog perthnasol wedi dychwelyd |
| 3 | Edrych ar faterion amgylcheddol sy'n effeithio ar y rhanbarth nad oes modd i ni atgyweirio ein hunain, megis cadernid newid hinsawdd a lleihau'r swm o becynnau yn ein siopau. | Dal i fod YN BERTHNASOL, ond mân newid i'r geiriad, i ddangos ein bod ni'n edrych ar gadernid newid hinsawdd mewn cyd-destun ehangach, nid amddiffynfeydd arfordirol Hen Golwyn yn unig. | I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| 4 | Edrych ar ein prosesau caffael a nodi sut y gallwn wneud y mwyaf o fuddion cymunedol o ddatblygiadau adeiladau (e.e. trwy Gytundebau Adran 106 - cytundebau cyfreithiol yw'r rhain rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr ar gyfer sefyllfaoedd pan efallai bydd angen mesuriadau i leihau effaith datblygiadau ar y gymuned). | Dal yn berthnasol ond WEDI'I OEDI | I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. |
| 5 | Gweithio gyda'n timau cynllunio i sicrhau bod materion amgylcheddol yn | Dal yn berthnasol ond WEDI'I OEDI | CNC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael eu trin wrth gynllunio datblygiadau newydd. | | |
| 6 | Mannau gwyrdd a glas sy'n gysylltiedig ag adferiad Covid ar gyfer cymunedau a staff. | NEW | CNC |
| | | | |

4.9 Cafodd syniadau cychwynnol am brosiect i wario grant £25,000 Cyfoeth Naturiol Cymru eu trafod.  Bu Fran Lewis (CBSC) a Howard Sutcliffe (CSDd) yn datblygu syniadau ar ôl y cyfarfod a chafodd dau brosiect eu cyflwyno. Nod CNC yw rhoi gwybod i'r BGC beth yw'r penderfyniad erbyn dydd Gwener 13 Tachwedd.

**Prosiect 1 – Rhaglen  galluogi gyda beiciau trydan arfordirol.**
**£12,000 a fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu 6 beic trydan (mae'r staff ac adnoddau technegol eisoes yn eu lle).**

- Adeiladu ar brofiad presennol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o gynnal gweithgareddau beic trydan penodol ar gyfer unigolion sy'n anodd eu cyrraedd. Yn cynnwys y rhai gydag anawsterau iechyd meddwl, gordewdra neu heriau rheoli eu pwysau a chyfranogwyr digartref; cefnogi cymunedau i ymgysylltu mwy â'r awyr agored.
- Datblygu cynllun sector arfordirol (wedi'i seilio yn ardal Bae Colwyn/Porth Eirias) gan ddefnyddio'r llwybrau o Gonwy – Mostyn, i gefnogi pobl o sawl cymuned ac annog beicio fel teclyn ar gyfer iechyd a lles ac fel dull o gludiant.
- Cyflwyno sesiynau wythnosol a thargedu pobl sy'n anodd eu cyrraedd a gweithio gyda sefydliadau megis Tai Gogledd Cymru a Cartrefi Conwy. Bydd hyn yn cyd-fynd â rhaglen waith parhaus a phartneriaid gyda Conwy Wledig.
- Bydd staff CBSC yn codi ymwybyddiaeth am yr amgylchedd arfordirol lleol a Chonwy wledig ac yn annog cysylltiad pellach gyda natur trwy ddeunyddiau gan CNC.

**Prosiect 2 – Coetir Cymuned Glan Morfa.**
**Bydd £13,000 yn cael ei wario ar sicrhau ffiniau'r safle, gwella'r 3 pwynt mynediad, gosod 6 marciwr llwybr.**

- Y nod yw darparu 'mynediad i bawb' tra'n ei gwneud hi'n anodd i feiciau modur oddi ar y ffordd allu cael mynediad i'r safle.
- Annog mwy o bobl sy'n byw yng ngorllewin y Rhyl i ddefnyddio mwy ar y safle – er bod y safle wedi cael ei leoli ochr arall i'r rheilffordd, mae'n cael ei ystyried yn rhwystr corfforol.
- Darparu nifer o fannau mynediad deniadol/atyniadol i annog teuluoedd ifanc gyda phramiau, cadeiriau/bygis i bobl anabl a beicwyr i ddod i'r safle, ac unwaith y maent yno eu bod yn gwybod y gallant fwynhau'r arwynebau fflat esmwyth heb berygl ac annifyrrwch beiciau modur oddi ar y ffordd.
- Bydd grŵp cerdded gorllewin/de-orllewin y Rhyl yn cael ei sefydlu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau?**

5.1 Mae’r papur yma’n ymwneud â blaenoriaeth Cefnogi Cadernid Amgylcheddol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae’r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig ar hyn o bryd a bydd unrhyw gostau neu effeithiau yn cael eu nodi unwaith y bydd y BGC yn gwneud penderfyniad ar yr argymhellion.

**7. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

7.1 Risg o ran capasiti’r grŵp i weinyddu ac adrodd ar y meysydd gwaith, fe eir i’r afael â hyn trwy rannu cyfrifoldeb ac oedi rhagor o weithredoedd.